# CYNLLUN GWEITHREDOL WDA 2002/2003

**Mawrth 2002**

**Gwireddu'r Gwahaniaeth**

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.** | **Rhaglenni a Thargedau Gweithredol:** | **5/ 9** |
| **2.1** | **Cefnogi Busnes Cyffredinol** | **5** |
| **2.2** | **Cefnogi Busnes Arbenigol** | **5/7** |
| **2.3** | **Seilwaith Busnes** | **8** |
| **2.4** | **Cefnogi Cymunedau** | **8** |
| **2.5** | **Cefnogi Unigolion** | **9** |
| **3.** | **Rhaglenni Corfforaethol** | **9/11** |
| **4.** | **Rheoli Eiddo** | **11** |
| **5.** | **Costau Rheoli** | **11** |
| **6.** | **Rhestr prosiectau sydd angen cymeradwyaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd** | **11** |

**Atodiad 1.** **Crynodeb o'r Canlyniadau Strategol**

**Atodiad 2.** **Crynodeb o'r Gyllideb Weithredol**

**Atodiad 3.** **Crynodeb o'r Adnoddau Ariannol**

**Atodiad 3a.** **Cysoni Cyllid Cyllideb Graidd WDA 2002/03 gyda Llythyr Cyfrifoldeb**

**Atodiad 4.** **Cyllid Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru Wedi ei Ddiogelu**

**Atodiad 5.** **Cymeradwyaeth y Prif Weinidog: Croeso a Nawdd**

## 1. Cyflwyniad

Mae Cynllun Gweithredol 2002/03 yn amlinellu amcanion, allbynnau a chanlyniadau strategol allweddol y WDA o ran cyfarfod y targedau a osododd y Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cyfnod y cynllun.

Mae'r cynllun yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol WDA 2002-2005, 'Gwneud Gwahaniaeth', sy'n adeiladu strategaeth o gwmpas tri o grwpiau cwsmeriaid cydberthynol: Busnes, Cymunedau ac Unigolion yng nghylchoedd trefol a chefn gwlad Cymru. Mae'r cynllun yn dangos prif weithgareddau'r Awdurdod sydd wedi eu cyfeirio at ddiwallu anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid, sicrhau canlyniadau gwirioneddol gyda'r defnydd gorau oll o'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd mesurau cyflawniad ychwanegol a chloriannu parhaol yn sicrhau ein bod yn parhau i goethi a datblygu'r gweithgareddau hyn yn unol â galwadau cwsmeriaid. Trwy fesur ein cyflawniad yn ôl llwyddiant ein cwsmeriaid byddwn yn sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru. Tra'n cynyddu ein heffeithiolrwydd ymdrechwn i wella ein heffeithlonrwydd, yn arbennig o ran ein costau rhedeg.

**I gefnogi 'Cymru ar ei Hennill', strategaeth datblygu economaidd genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod dros gyfnod y cynllun yw:**

- **I symud busnesau yng Nghymru i fyny'r gadwyn werth gan gynnwys:**
  - Datblygu rhaglen fwy canolbwyntiedig o gefnogi arloesi.
  - Cyflwyno'r cysyniad Technium.
  - Lansio Canolfan Masnacheiddio Technoleg.
  - Sefydlu canolfan ranbarthol o ragoriaeth gweithgynhyrchu.
  - Atgyfnerthu cynlluniau SMART / Cymru.
  - Gwella cefnogaeth a chyngor i fusnes.
  - Gwella cefnogaeth i sectorau a chlystyrau twf uchel.
  - Gwella cynhyrchiant.

- **Cynhyrchu mwy o fusnes newydd yng Nghymru, gan gynnwys:**
  - Rhoi'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth mewn grym.
  - Datblygu mwy ar Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth.
  - Sicrhau'r fantais fwyaf o Cyllid Cymru.
  - Sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd ac adeiladau o safon.
  - Cynorthwyo cwmnïau Cymreig i ennill mwy o fusnes.

- **Hybu buddsoddi mwy yn yr Oes Ddigidol gan gynnwys:**
  - Cynorthwyo i gael mynediad i fand llydan ar hyd a lled Cymru.
  - Deall a gwerthfawrogi mwy ar fanteision TGCh.
  - Symbylu busnesau a chymunedau i fabwysiadu TGCh.

- **Cefnogi economi cefn gwlad trwy wneud y canlynol:**
  - Datblygu'r strategaeth Amaeth-fwyd.
  - Cyflwyno Cyswllt Ffermio.
  - Gweithredu'r Cynllun Adferiad Gwledig.

- **Cynnal Cymunedau trwy wneud y canlynol:**

- Gweithredu Cynllun Ymateb Corus gyda phartneriaid.
- Sicrhau fod cronfeydd adfywio yn cael eu defnyddio hyd yr eithaf.

***Mae'r manylion yn y Cynllun Busnes yn ffurfio cyflwyniad ffurfiol yr Awdurdod i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'w gymeradwyo at weithredu rhaglenni 2002/03 yn unol ag adran 1 (14) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, fel y diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac ar sail gofynion y Datganiad Ariannol a Rheoli a gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Awdurdod.***

## 2. Cynllun Busnes 2002/03: Rhaglenni a Thargedau Gweithredol

Mae modd crynhoi gweithgareddau'r Awdurdod oddi mewn i'r meysydd rhaglen bras canlynol. I gefnogi'r rhain, mae'r Awdurdod hefyd yn rhedeg nifer o raglenni penodol gyda'u cyllidebau eu hunain yn ôl y crynodeb yn atodiad 2.

### 2.1 Cefnogi Busnes Cyffredinol

**Amcanion**

Darparu cyngor a gwybodaeth diduedd o safon i fusnes; cynnal cwmnïau drwy'r Porth Cyswllt Busnes, galluogi nifer fawr o fusnesau bach a newydd i dyfu.

**Gweithgareddau**

Trwy Cefnogi Menter, cynnal gwasanaethau cyfannol iawn fel arolygon diagnostig cyffredinol, cyfeirio cwmnïau at ffynonellau gwybodaeth arbenigol a rhoi cefnogaeth a chyngor, darparu cyllid creiddiol i Cyswllt Busnes a gweithredu'r rhaglen Dechrau Busnes.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 8,200 |
| Arolygon diagnostig i'w cynnal | 4,000 |
| Busnesau newydd i'w sefydlu | 2,000 |
| Gwerth cyfleoedd busnes newydd | £6.7 m |
| Gwerth busnes newydd i'w sicrhau | £1.6 m |

**Cyllideb Arfaethedig: £20.95 m**

### 2.2 Cefnogaeth arbenigol i dechnoleg ac arloesi, e-fasnach a thwf y sector

**Amcanion**

Cyflwyno cefnogaeth arbenigol i fusnesau, gan ganolbwyntio ar sectorau o bwysigrwydd strategol allweddol yn economi Cymru yn genedlaethol a rhanbarthol. Annog sefydlu fforymau sector, darparu gwybodaeth o'r farchnad a rhaglenni cynghori wedi eu teilwrio ar farchnadoedd newydd a gwella cynhyrchiant ac ymdoddi llais y diwydiant yn strategaeth brif ffrwd yr Awdurdod pan yn dylunio cynhyrchion a gwasanaethau.

#### 2.2.1 Datblygu'r gadwyn gyflenwi

Cefnogi cwmnïau mewn cadwyni cyflenwi i gael gafael ar fethodolegau gweithgynhyrchu main a rhaglenni effeithlonrwydd eraill. Cynyddu gwerth cyfleoedd busnes sydd ar gael i fusnesau Cymru.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 1,200 |
| Gwerth cyfleoedd busnes newydd i'w sicrhau | £101 m |
| Gwerth busnes newydd i'w sicrhau | £41 m |

**Cyllideb Arfaethedig: £8.8 m**

#### 2.2.2 Rhaglenni arloesi a thechnoleg

Cynorthwyo cyrff i lansio cynhyrchion a phrosesau newydd; cynorthwyo gyda chreu cwmnïau deilliedig o sefydliadau addysg ac ymchwil; cynorthwyo cyrff i hwyluso masnacheiddio ymchwil, a sicrhau cyllid buddsoddi ar gyfer ymchwil a datblygiad.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 5,000 |

| | |
|---|---|
| Cynhyrchion / prosesau newydd i'w cyflwyno | 1,450 |
| Cwmnïau deilliedig i'w sefydlu | 90 |
| Buddsoddiad Y&D i'w sicrhau | £5.5 m |

**Cyllideb Arfaethedig: £20.9m**

### 2.2.3 Cyllid Cymru

Darparu cyllid ecwiti a benthyciad i SMEau i gefnogi prosiectau ymarferol a chefnogi creu busnesau newydd. Mae Cyllid Cymru ccc wedi llwyddo i sicrhau £45 miliwn o gyllid ERDF a'r sector preifat ar gyfer cronfeydd ecwiti, mesanîn a benthyciad newydd i ardaloedd Amcan 1 Cymru. Bydd cais am £20 miliwn o gyllid Amcan 2 tebyg yn rhoi mynediad i ryw £100 miliwn o gronfeydd i Cyllid Cymru ccc gefnogi busnesau yng Nghymru.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 800 |
| Dechreuadau busnes newydd | 150 |

**Cyllideb Arfaethedig: £7.02 m**

### 2.2.4 Rhaglenni datblygu cymdeithas wybodaeth a'r cyfryngau

Hyrwyddo manteision cymwysiadau TGCh i fusnes; cynorthwyo cwmnïau i farchnata a chynnal trafodion ar-lein ac ail-lunio eu busnes i gynyddu mantais gystadleuol trwy dechnolegau seiliedig ar y we.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 1,100 |
| Arolygon technoleg i'w cynnal | 900 |

**Cyllideb Arfaethedig: £ 6.9 m**

### 2.2.5 Rhaglenni Amaeth-fwyd

Cynnal a datblygu busnesau yn y sector Amaeth-fwyd, gweithredu'r Cynllun Adferiad Gwledig gan gynnwys Cyswllt Ffermio, marchnata Amaeth-fwyd ac Arallgyfeirio Ffermydd.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 5,000 |
| Gwerth cyfleoedd busnes newydd i'w sicrhau | £64m |
| Gwerth busnes newydd i'w sicrhau | £22 m |

**Cyllideb Arfaethedig: £23.4 m**

### 2.2.6 Adeiladau arbenigol

Datblygu adeiladau addas ar gyfer SMEau fel y rhwydwaith Technium o ddeoryddion a chyfleusterau ar gyfer cwmnïau deilliedig o'r byd academaidd, ac adeiladau pwrpasol i fuddsoddwyr newydd o'r tu allan ac ehangu busnes presennol.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Arwynebedd llawr adeiladau arbenigol ymlaen llaw | 26,500 metr sgwâr |
| Arwynebedd llawr adeiladau pwrpasol | 28,500 metr sgwâr |

**Cyllideb Arfaethedig: £43 m**

## 2.3 Seilwaith busnes

**Amcanion**
Mynd i'r afael â phrinder safleoedd ac adeiladau addas ar gyfer busnesau cystadleuol lle mae darpariaeth y sector preifat yn annigonol neu'n absennol a sicrhau fod rhwydweithiau cyfathrebu di-ail ar gael.

**Gweithgareddau**
Cefnogi darparu cynllun cyfanwerthu Band Llydan Cymru gyfan mewn partneriaeth gyda Cymru Arlein; creu arwynebedd llawr masnachol a diwydiannol datblygedig ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, i symbylu busnesau i leoli mewn mannau penodol; paratoi tir gyda gwasanaethau i sicrhau datblygu adeiladau pwrpasol ymlaen llaw i gefnogi busnes at y dyfodol. Bydd gwasanaethau Cyfadran Tir yn gweld bod tir ar gael i ddatblygu safleoedd cyflogaeth ar hyd a lled Cymru.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i'w cynorthwyo | 200 |
| Arwynebedd llawr i'w greu ymlaen llaw | 22,000 metr sgwâr |
| Tir cyflogaeth i'w gynhyrchu | 20,000 metr sgwâr |
| Swyddi tebygol i'w cedfnogi | 1500 |

**Cyllideb Arfaethedig: £35.9 m.**

## 2.4 Cefnogi Cymunedau

**Amcanion**
Datblygu cynlluniau adfywio cymunedol cyfannol mewn partneriaeth hirdymor gydag awdurdodau lleol ac eraill, gan gynnwys cefnogi Cymunedau'n Gyntaf.

**Gweithgareddau**
Adennill tir, prosiectau adnewyddu trefol a gwledig gan gynnwys Grantiau Gwella Trefi, Grantiau Buddsoddi mewn Adfywio, Grantiau Gwella Amgylcheddol a mentrau cymunedol fel y rhaglenni E-gymunedau a LEADER+. Mae prosiectau allweddol hefyd yn cynnwys y Cynllun Adferiad Gwledig a'r rhaglen Trefi a Phentrefi Bychain. Bydd gwasanaethau Cyfadran Tir hefyd yn darparu tir amwynder i gynorthwyo adfywio cymunedol.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Tir i'w adennill | 53 hectar |
| Tir amwynder i'w gynhyrchu | 4,000 sgwâr m |

**Cyllideb Arfaethedig: £51.8 m**

## 2.5 Cefnogi Unigolion

**Amcanion**
Cynorthwyo i ddarparu'r modd a chyfle i bobl fynd yn rhan o'r gweithlu ac annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd i weithio a sefydlu eu busnesau eu hunain.

**Gweithgareddau**
Annog cyfranogiad a menter trwy raglenni oddi mewn i arweiniad y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a gweithio mewn partneriaeth agos gydag ELWa. Bydd Cyfadran Tir yn cyfrannu at gynyddu'r tai sydd ar gael trwy gaffael a gwared tir ar gyfer tai.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Busnesau i’w cynorthwyo | 3,500 |
| Dechreuadau busnes newydd | 1,760 |
| Tir i’w greu ar gyfer tai | 20 hectar |
| Unedau Tai Tebygol i’w cynhyrchu | 500 |

**Cyllideb Arfaethedig: £15.4 m**

## 3. Rhaglenni Corfforaethol

Mae’r rhaglenni hyn yn cefnogi’r rhaglenni gweithredol a amlinellwyd uchod.

### 3.1 Cynhyrchu BUT

**Gweithgareddau**

Bydd y Gyfadran Ryngwladol yn targedu sectorau allweddol mewn gweithgynhyrchu datblygedig a gwasanaethau cyfnewidiadwy gan greu a diogelu swyddi yn unol â meini prawf I-DU.

**Allbynnau**

| | |
|---|---|
| Swyddi i’w creu (I-DU) | 5,500 |
| Swyddi i’w diogelu (I-DU) | 2,550 |
| Swyddi newydd oddi tramor (I-DU) | 2,600 |

**Cyllideb Arfaethedig: £5.9 m**

### 3.2 Marchnata

Hyrwyddo arweiniadau Cefnogi Busnes, cynhyrchu busnes yng Nghymru trwy hysbysebu sectorau a hyrwyddo, ymgyrch eiddo holl-Gymru.

**Allbynnau**

| |
|---|
| Mesur faint mwy sydd yn manteisio ar gynhyrchion a gwasanaethau’r Awdurdod yn ystod blwyddyn y cynllun |
| Mesur faint mwy o gleientiaid sy’n cael eu bodloni yn ystod blwyddyn y cynllun |

**Cyllideb Arfaethedig: £5.1 m**

### 3.3 Cwpan Ryder

Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymroddi i roi cefnogaeth ariannol i’r Cwpan Ryder fydd yn cael ei reoli drwy’r Cyfadran Prosiectau Strategol ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu hyrwyddiad rhyngwladol o Gymru ym marchnadoedd Gogledd America a’r Dwyrain Pell.

### 3.4 Datblygu Strategaeth

#### 3.4.1 Datblygu Polisi

Bydd datblygu polisi oddi mewn i’r Awdurdod yn cael cymorth Timau Datblygu pwnc a Phwyllgorau Bwrdd cyfatebol yn cwmpasu Cefnogi SMEau; yr Economi Gwybodaeth; Gweithgynhyrchu Datblygedig; Gwasanaethau Gwerth Ychwanegol; Adfywio a Rheoli Cyflawniad.

#### 3.4.2 Rhaglen Ymchwil

I alluogi datblygu polisi mewn dull mwy cytbwys, bydd ymchwil yr Awdurdod yn cael ei datblygu o gwmpas anghenion y timau datblygu pwnc newydd. Bydd prosiectau cynnar yn cynnwys gwaith i ysbrydoli’r drafodaeth ar sectorau allweddol a

chlystyru, ynghyd ag arolygu parhaol o gynnydd wrth ddatblygu'r economi, gan adeiladu ar yr arolwg SMEau i ddeall y cyfyngiadau ar dwf busnes. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn cyswllt agos gyda thîm Cyngor Economaidd y Cynulliad a'r Uned Ymchwil a Gwerthuso newydd.

**3.4.3 Rhaglen Arolygu a Gwerthuso Cyflawniad**

I gynorthwyo'r WDA i fesur ei effaith ar gwsmeriaid bydd yr ONS yn meincnodi cwmnïau cleient y WDA gyferbyn â chwmnïau tebyg heb gyfranogiad y WDA. Mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd yr astudiaethau gwerthuso canlynol yn cael eu cynnal:

**3.4.4i Dadansoddiad Gofodol**

Er mwyn archwilio effaith ymyriadau'r Awdurdod, ynghyd ag eraill, bydd dwy ardal yng Nghymru yn cael eu dynodi, un gymuned yn y Cymoedd ac un gymuned wledig. Bydd y gwerthuso yn cwmpasu pob agwedd ar gefnogi cyfalaf a chyllid fel ei gilydd dros y 3/ 5 mlynedd diwethaf.

**Amserlen:** Ardal 1: Ebrill – Gorffennaf
Ardal 2: Mehefin – Medi

**3.4.4ii Cynhyrchiant gweithgynhyrchu**

Gwerthusiad cyfannol o amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi datblygu'r gadwyn gyflenwi a chynhyrchiant gweithgynhyrchu.

**Amserlen:** Medi – Mawrth

**3.4.4iii Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth**

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gefnogi gwerthusiad Cymru gyfan, holl bartneriaid o'r EAP sydd ar fynd.

**Amserlen:** Cyfredol

**Cyllideb Arfaethedig: £1.1 m**

**4.0 Rheoli Eiddo**

Cynnal asedau eiddo'r WDA.

**Cyllideb Arfaethedig: £3 m**

**5.0 Costau rheoli**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi clustnodi £32.2 m yn MRC i gyllido cost rheoli presennol rhaglenni'r Awdurdod. (Gwelwch Atodiad 3 a 4). Mae trafodaethau ar y gweill gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar sut i gynnwys pwysau MRC o £1.8 m a ddynodwyd eisoes a phwysau MRC newydd arall yn deillio o drosglwyddo swyddogaethau o'r Cynulliad ac ati. Yn ystod y flwyddyn bydd gwaith yn parhau ar egluro diffiniad MRC, parhau gwaith sydd eisoes ar y gweill ac, yn ail, i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i ganfod goblygiadau cyllidebau craidd ac ychwanegol yr Awdurdod i MRC.

**6.0 Rhestr prosiectau sydd angen cymeradwyaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

Oherwydd y bu mwy o ddatganoli awdurdod dirprwyedig i'r WDA, bydd prosiectau sydd angen cymeradwyaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn cael eu dwyn ymlaen i'w hystyried bob yn un. Fodd bynnag, mae cymeradwyaeth yn cael ei cheisio am gyllideb gyfansawdd o £1.71 m ar gyfer Croeso a Nawdd (Gwelwch Atodiad 5).

**Cynllun Busnes 2002/03**
**Atodiad 1 - Crynodeb o'r Canlyniadau Strategol**

| Canlyniadau Strategol | Swyddi i'w Creu (Gwir) | Swyddi i'w Diogelu | BSP (£'000) | Dechreuadau Newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi Busnesau yng Nghymru** | | | | |
| *Cefnogaeth Gyffredinol* | 4,500 | 3,500 | 14,000 | 2,000 |
| **Cefnogaeth Arbenigol / Sectorau Allweddol* | 9,000 | 9,500 | 475,000 | 240 |
| *Seilwaith Busnes* | 50 | 200 | 55,000 | 0 |
| **Cefnogi Cymunedau** | 1,000 | 1,000 | 26,000 | 0 |
| **Cefnogi Unigolion** | 450 | 1,800 | 50,000 | 1,760 |
| **Rhaglen Gyflawn** | **15,000** | **16,000** | **620,000** | **4,000** |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 10,500 | 11,200 | 434,000 | 2,800 |
| Dwyrain Cymru | 4,500 | 4,800 | 186,000 | 1,200 |
| **Rhagolwg o Wariant 2001/02** | **14,700** | **13,600** | **550,000** | **3,000** |

- * yn cynnwys mewnfuddsoddiad newydd (gwir) sy'n cynnwys: swyddi newydd oddi tramor = 2180, Gwariant Cyfalaf = £90m

**Cynllun Busnes 2002/03**

**Atodiad 2: Crynodeb o'r Gyllideb Weithredol (crynswth)**

| **Rhaglen Weithredol 2002/03** | **Adnoddau ariannol £'000** | **Rhaglen Weithredol 2002/03** | **Adnoddau ariannol £'000** |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi Busnes Cyffredinol** | **20,950** | **Rhaglenni Corfforaethol** | |
| Datblygu menter | 10,797 | Cynhyrchu BUT | 5,900 |
| Cyswllt Busnes | 9,153 | Marchnata | 5,100 |
| Cyfradd Enedigaethau Busnes | 1,000 | Datblygu Strategaeth | 1,101 |
| **Cefnogaeth arbenigol / sectorau allweddol** | **109,158** | Partneriaeth Cronfeydd Strwythurol | 1,810 |
| Cadwyni a rhwydweithiau cyflenwi | 8,854 | Rheoli Eiddo | 3,007 |
| Arloesi a thechnoleg | 20,891 | Cyfadran Tir | 20,700 |
| Cymdeithas wybodaeth | 6,866 | | |
| Cyllid Cymru (yn cynnwys 400k MWDG gweddilliol) | 7,428 | | |
| Bwyd | 23,450 | **Gwariant Llawn y Rhaglen** | **270,911** |
| Adeiladau arbenigol ymlaen llaw | 15,741 | | |
| Adeiladau pwrpasol (yng Nghymru) | 14,288 | **Gwariant Arall** | |
| Adeiladau pwrpasol (i Gymru) | 12,890 | Cronfa Prosiectau Arbennig | 13,240 |
| | | MRC | 32,210 |
| **Seilwaith Busnes** | **35,972** | MRC ychwanegol * | 1,863 |
| Telathrebu | 2,195 | MRC: Cyfadran Tir | 2,560 |
| Adeiladau ymlaen llaw | 20,477 | MRC Diogelwyd | 850 |
| Datblygu safleoedd | 6,450 | TAW / Trethi | 3,500 |
| Partneriaeth Ddiwydiannol Cymru | 1,350 | Diffyg ECSC/NLF | 1,800 |
| Rhodfa Bute | 5,500 | Dibrisiad / Cost Cyfalaf | 41,913 |
| **Cefnogi Cymunedau** | **51,779** | | |
| Gwelliannau amgylcheddol | 4,282 | | |
| Adfer tir | 13,095 | | |
| Adnewyddu trefol a gwledig | 23,932 | | |
| Cynnal cymunedau | 9,470 | | |
| **Cefnogi Unigolion** | **15,434** | | |
| Cyfranogiad | 15,434 | | |
| **Cyfanswm Rhaglenni Gweithredol** | **233,292** | **CYFANSWM GWARIANT** | **386,867** |

*** Yn amodol ar drafodaeth gyda Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (Gwelwch Gynllun Gweithredol 5.0)**

**Cynllun Busnes 2002/03**
**Atodiad 3 Crynodeb o'r Adnoddau Ariannol**

| | Rhagolwg o Wariant 2001/02 £'000 | Arfaethedig 2002/03 £'000 |
|---|---|---|
| **GWARIANT** | | |
| **Cyllideb graidd** | | |
| Gwariant ar y Rhaglen (Craidd) | 148,738 | 134,683 |
| Cronfa Prosiectau Arbennig | 40 | 13,240 |
| Costau Rheoli * | 33,173 | 32,210 |
| Costau Rheoli (darpariaeth ar wahân am swyddogaethau a drosglwyddwyd) * | amherthnasol | 850 |
| TAW / Trethi | 3,500 | 3,500 |
| Diffyg ECSC/NLF | 1,800 | 1,800 |
| Dibrisiad / Cost Cyfalaf | amherthnasol | 41,913 |
| ***Is-gyfanswm*** | **187,251** | **228,196** |
| **Cyllideb Ychwanegedd** | | |
| Gwariant ar y Rhaglen (Ewro a Chyllid Cyfatebol) | 32,953 | 53,346 |
| Gwariant ar y Rhaglen (Diogelwyd) Cymeradwy | 26,864 | 64,045 |
| **CYFANSWM (AC EITHRIO CYFADRAN TIR)** | **247,068** | **345,587** |
| Rhaglen Cyfadran Tir (Yn cynnwys ex CDBC) | 22,091 | 20,700 |
| MRC Cyfadran Tir | 2,467 | 2,560 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **271,626** | **368,847** |

*** Yn amodol ar drafodaeth gyda Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (Gwelwch Gynllun Gweithredol 5.0)**

**Cynllun Busnes 2002/03**
**Atodiad 3. Crynodeb o'r Adnoddau Ariannol - parhad.**

| | **Rhagolwg o Wariant 2001/02** | **Arfaethedig 2002/03 £'000** |
|---|---|---|
| **<u>CYLLID</u>** | | |
| **Cyllideb Graidd** | | |
| Cymorth grant (Craidd) | 141,908 | 147,674 |
| Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) | 0 | 0 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC) | 1,883 | 599 |
| | | 0 |
| Derbynion Hunangynyrchiedig | | |
| Rhagolwg o'r Derbynion cyfalaf | 30,460 | 16,760 |
| Derbynion Cyllid | 12,960 | 7,160 |
| Derbynion Prosiectau Arbennig | 40 | 13,240 |
| Dibrisiad / Cost Cyfalaf | amherthnasol | 41,913 |
| ***Is-gyfanswm*** | **187,251** | **227,346** |
| **Cyllideb Ychwanegedd** | | |
| Gwariant ar y Rhaglen (Ewro a Chyllid Cyfatebol) | 32,953 | 53,346 |
| Gwariant ar y Rhaglen (Diogelwyd)* *Cymeradwy* | 26,864 | 64,045 |
| MRC Ychwanegol am swyddogaethau a drosglwyddwyd | | 850 |
| **CYFANSWM (AC EITHRIO CYFADRAN TIR)** | **247,068** | **345,587** |
| Hunangynyrchiedig Cyfadran Tir | 19,058 | 23,260 |
| Etifeddiaeth CDBC | 5,500 | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **271,626** | **368,847** |

**Atodiad 3a. Cysoni Cyllid Cyllideb Graidd WDA 2002/03 gyda Llythyr Cyfrifoldeb £'000**

| | **Llythyr Cyfrifoldeb** | **Cynllun Busnes** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| **Costau Rhedeg** | | | |
| MRC | **32,210** | **32,210** | Gwelwch Adran 5.0 o'r Cynllun Gweithredol |
| **Gwariant Cyfalaf** | **46,674** | | |
| Llai Derbynion Cyfalaf | **(4,833)** | | |
| Cyfalaf Clir | | **41,841** | |
| **Gwariant Cyfredol** | **155,910** | | |
| Llai Derbynion Cyfredol | **(76,787)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfredol Clir (Cyllid) | | **79,123** | |
| Rhodfa Bute (Symudwyd i Diogelwyd) | | **(5,500)** | Yng nghyfanswm Cyfalaf Llythyr Cyfrifoldeb 46,674 |
| Cymhorthdal Grant (Craidd) | **Is-gyfanswm** | **147,674** | Gwelwch Grynodeb Cyllid Atodiad 3 |
| NLF/PDC | **599** | **599** | |
| Cyllid Cymru (Symudwyd i Diogelwyd) | **4,546** | | |
| Dibrisiad / Cost Cyfalaf (AME) | **40,813** | **40,813** | |
| Darpariaethau | **1,100** | **1,100** | |
| Partneriaeth Cronfeydd Strwythurol | **1,810** | | |
| (Symudwyd i Diogelwyd) | | | |
| Derbynion Hunangynyrchiedig | | **37,160** | |
| | **Is-gyfanswm** | **227,346** | |
| Cyllideb Ychwanegedd | | | |
| Derbynion Ewro a Chyllid Cyfatebol | | **53,346** | Gwelwch Atodiad 3 |
| Cymorthdal Grant | **(Diogelwyd)** | **64,045** | Gwelwch Atodiad 4 |
| MRC (Diogelwyd) | | **850** | Gwelwch Grynodeb Cyllid Atodiad 3 |
| **Cyfansymiau (Ac eithrio Cyfadran Tir)** | **202,042** | **345,587** | |

**Cynllun Busnes 2002/03**
**Atodiad 4 – Cyllid CCC Ychwanegol Diogel Cymeradwy**

| **Rhaglenni** | **Blwyddyn cynllun 2002/03 £'000** | **Rhaglenni** | **Blwyddyn cynllun 2002/03 £'000** |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Menter** | | **Adeiladau Arbenigol Ymlaen Llaw** | |
| Ymateb Hunangyflogaeth Corus | 176 | Technium Aberystwyth | 2,000 |
| **Strategaeth Cyfradd Enedigaethau Busnes** | 1,000 | Corus – Canolfan Ffonio Baglan | 3,000 |
| **Cadwyni a Rhwydweithiau Cyflenwi** | | **Adeiladau pwrpasol** | |
| Cyflymu Cymru | 1,930 | Airbus (Brychdyn) | 9,000 |
| Ymateb Cadwyn Gyflenwi Corus | 150 | CAST | 3,600 |
| Ynni Adnewyddadwy | 200 | | |
| **Arloesi a Thechnoleg** | | **Seilwaith Busnes** | |
| Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol | 223 | Rhodfa Bute | 5,500 |
| Cynllun Credydau Rhwydweithio ac Arloesi | 600 | Cyfanwerthu Band Llydan (Telathrebu) | 300 |
| Cynghorwyr Gallu | 250 | **Adeiladau Ymlaen Llaw** | |
| ITC MRC Diogelwyd £850k | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ECMM – (Corus Y&D) | 1,500 | CRM Pen-y-bont ar Ogwr Ymlaen Llaw | 1,800 |
| DTI – Canolfannau Rhanbarthol o Rhagoriaeth Gweithgynhyrchu | 500 | **Gwelliant amgylcheddol** | |
| **Cymdeithas Wybodaeth** | | Gwasanaethau Rheoli Amgylcheddol | 155 |
| Y DU Ar-lein i Gynghorwyr Busnes | 293 | **Adfer tir** | |
| Canolfannau TGCh Craidd | 750 | Brymbo | 1,000 |
| Canolfannau TGCh Cronfa Partneriaeth Leol | 183 | **Adnewyddu trefol a gwledig** | |
| **Cyllid Cymru** | 4,546 | Corus– Adfywio Gorseinon | 1,850 |
| Cronfa Benthyciad Cymunedol | 568 | Porth Tawe | 5,150 |
| **Amaeth-Bwyd** | | **Partneriaeth Cronfeydd Strwythurol** | 1,810 |
| Cynllun Adferiad Gwledig (Yn cynnwys Bwyd) | 5,000 | | |
| Cynllun Datblygu Gwledig | 3,581 | | |
| Adran Amaethyddol CCC | 1,800 | | |
| Cyswllt Ffermio Amcan 1 | 1,606 | | |
| PMG Amcan 1 | 4,024 | **CYFANSWM** | **64,045** |

**Atodiad 5**

| | |
|---|---|
| CYFADRAN | Marchnata |
| U.A./ PARTH (e.e.:NUTS 1 neu 2) | Cymru Gyfan |
| ENW'R PROSIECT | **Nawdd a Chroeso Cyfun 2002/3** |
| DISGRIFIAD O'R PROSIECT | **Nawdd: Uchafswm dirprwyedig £60k fesul contract.**<br><br>Nawdd yw perthynas fusnes rhwng darparwr cyllid, adnoddau neu wasanaethau ac unigolyn, digwyddiad neu gorff sy'n cynnig yn gyfnewid rhai hawliau a chysylltiad y bydd modd eu defnyddio er mantais fasnachol, yn benodol ar ffurf marchnata Cymru. Rhaid i nawdd o'r fath fod yn gyson â nodau ac amcanion corfforaethol y WDA, er mai yn anfynych y bydd yn cael ei reoli gan yr un mesurau allbwn.<br>**Croeso: Uchafswm dirprwyedig £15k fesul digwyddiad.**<br>Diffiniad Croeso yw digwyddiadau lle mae pobl fusnes yn cael eu diddanu e.e. ciniawau a chiniawau canol dydd a digwyddiadau mwy fel dyddiau golff, neu'r Gyfadran Ryngwladol yn croesawu darpar fuddsoddwyr o'r tu allan. NID yw hyn yn cynnwys bwyd a diod sy'n cael ei ddarparu fel rhan o wariant ar raglenni cysylltiedig ag e.e. gweithdai Datblygu Busnes neu groeso achlysurol mewn arddangosfeydd. |
| RHAGLEN GORFFORAETHOL | |

**SAIL RESYMEGOL A CHYD-DESTUN DETHOL**

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys **amcangyfrifon** croeso ar draws holl swyddogaethau'r Awdurdod.
Mae nawdd yn berthnasol i holl Gyfadrannau'r Awdurdod gan gynnwys Marchnata a Rhyngwladol ac mae'n cynnwys Eisteddfod Llangollen, wythnos Busnes a Diwydiant, a chymhorthdal o £62.5k i Gyngor Sir Caerdydd yn ôl cyfarwyddyd CCC ar gyfer Rali *Network Q*.
DS: NID yw ffigurau yn cynnwys cyllido creiddiol ar gyfer cyrff eraill, sy'n cael eu cyfrif ar wahân.

| GWARIANT £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Elfen - os oes un) | Cyfanswm | Y flwyddyn flaenorol | 2001/02 | **2002 / 2003** | Blynyddoedd i ddod |
| **Croeso**<br><br>**Nawdd** | | £610k<br><br>£670k | £700k (Cyllideb)<br><br>£930k (Cyllideb) | **£750k**<br><br>**£960k** | I'W GADARN-HAU<br><br>I'W GADARN-HAU |

| INCWM £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Elfen - ffioedd;UE;gwarediadau) | Cyfanswm amherthnasol | Blynyddoedd blaenorol | 2001/02 | 2002 / 2003 | Blynyddoedd i ddod |
| SYLWADAU ERAILL (e.e.; cysylltiad â phrosiectau / rhaglenni eraill). | Mae holl ffigurau Nawdd a ddyfynnwyd am 2002/3 i gydymffurfio â chanllawiau nawdd newydd WDA, ac o dan arolygaeth Marchnata a Chyllid Canolog. | | | | |